# Cofnodion y Bwrdd wedi eu cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:**<br>**Lleoliad:** | Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyhoeddus<br>Canolfan Orbit, Merthyr Tudful |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | Dydd Iau 21 Mawrth 2019 |
| **Aelodau'r Bwrdd oedd yn bresennol:** | Syr David Henshaw, Cadeirydd<br>Clare Pillman, Prif Weithredwr<br>Chris Blake<br>Catherine Brown<br>Julia Cherrett<br>Geraint Davies<br>Howard C Davies<br>Dr Elizabeth Haywood<br>Zoë Henderson<br>Yr Athro Steve Ormerod<br>Yr Athro Peter Rigby |
| **Aelodau'r Tîm Gweithredol oedd yn bresennol:** | Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol<br>Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r De<br>Niall Reynolds, Cyfarwyddwr, Portffolio Trawsnewid<br>Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol, Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu<br>Tim Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth<br>John Hogg, Pennaeth, Gweithrediadau Canol De Cymru |
| **Pobl eraill oedd yn bresennol:** | Tracey Mayes, Prif Weithredwr, Rheolwr Busnes<br>Steve Wilson, Rheolwr Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Dŵr Gwastraff – Dŵr Cymru – eitem 3<br>Natalie Hall, Rheolwr Dŵr Cynaliadwy - eitem 3<br>Bob Vaughan, Arbenigwr Technegol, Dŵr a Thir Halogedig - eitem 4<br>Pete Stanley, Arbenigwr Technegol, Dŵr a Thir Halogedig - eitem 4<br>Amanda Paton, Rheolwr Rhaglen Cwsmeriaid - eitem 6 |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Jenn Jones<br>Carol Stevens<br>Julia Chambers |

## 1. Croeso

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod, gan esbonio y byddai cyfle i'r cyhoedd ofyn cwestiynau ar ddiwedd y cyfarfod.

### Ymddiheuriadau/Datganiadau o Fuddiant

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Karen Balmer (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg), Rosie Plummer a Catherine Love (Cyfarwyddwr, Gwybodaeth a Chysylltiadau Cwsmeriaid). Estynnwyd dymuniadau gorau i Karen.

1.3 Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas ag eitemau ar yr Agenda.

## 2. Adolygu Cofnodion a Chamau Gweithredu o Gyfarfod Bwrdd Cyhoeddus CNC a gynhaliwyd ym mis Ionawr

Cafodd cofnodion cyfarfod mis Ionawr 2019 eu cyflwyno a'u hadolygu. Cadarnhaodd y Bwrdd fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar y newid canlynol:

Cofnodion: Tudalen 8 – fferm wynt Pen-y-Cymoedd, nid fferm wynt Pen y Moelwyn
***CAM GWEITHREDU:*** *Ysgrifenyddiaeth i newid hyn*

### Camau Gweithredu

Aeth y Bwrdd ati i adolygu a nodi'r diweddariadau o'r camau gweithredu o gyfarfod mis Ionawr 2019. Rhoddwyd y diweddariadau llafar canlynol:

Cyfarfod Cyhoeddus
Cam Gweithredu 5 – Mawrth 2019
Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol
Diweddariad – cynhelir seminar ar gyfer aelodau'r Bwrdd ym mis Ebrill 2019.

## 3. Darlun Strategol - Dŵr

3.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol, Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, Steve Wilson, Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Dŵr Gwastraff - Dŵr Cymru, a Natalie Hall, Rheolwr Dŵr Cynaliadwy - CNC.

3.2 Amlinellodd y Rheolwr Dŵr Cynaliadwy rôl CNC yn y sector; mae hyn yn cynnwys monitro ansawdd dŵr a rheoleiddio tynnu a gollwng i gyrsiau dŵr. Mae rheoli dŵr yn gynaliadwy yn rhan allweddol o Gynllun Busnes CNC. Fodd bynnag, o fewn y Fframwaith Perfformiad, mae gan rai meysydd statws coch, felly mae angen blaenoriaethu sylw.

3.3 Mae dosbarthiad interim ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn dangos bod 40% o ddŵr yn bodloni statws da neu well o gymharu â 36% yn 2015. Mae Cymru yng nghanol y cyfartaledd Ewropeaidd o ran cydymffurfiaeth.

3.4 Amlinellwyd y gofynion a'r heriau canlynol:

- ariannu a blaenoriaethu gwaith gwella cyfalaf;
- rheoli tir gwledig – mae gwaith yn parhau gyda'r Is-grŵp Amaethyddiaeth Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) i lywio penderfyniadau'r llywodraeth nawr ac ar

ôl i'r DU ymadael â'r UE, i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o faterion ac i edrych ar atebion. Bydd eitem agenda benodol ar gyfer hyn yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2019;

- Ardaloedd trefol – mae gosod cerrig palmant ar fannau a oedd unwaith yn athraidd yn effeithio ar ollwng dŵr wyneb a llygredd; mae gwaith yn parhau gyda Llywodraeth Cymru i lywio datblygiadau arfaethedig.

3.5 Rhoddodd Steve Wilson, Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Dŵr Gwastraff – Dŵr Cymru, drosolwg o'r sefydliad, gan gynnwys:

- Cynllunio busnes a dyheadau i weithio'n wahanol.
- Nifer fawr o asedau a seilwaith
- Cyfnod busnes 5 mlynedd newydd sy'n ystyried gweledigaeth 2050 y sefydliad

3.6 Mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei ystyried fel cyfle i Dŵr Cymru a CNC weithio gyda'i gilydd. Mae 4 dalgylch wedi'u hamlinellu yn y cynllun pum mlynedd:

- Dŵr ymdrochi'r Rhyl – rheoli dŵr storm a gollwng carthffosiaeth i ddiogelu cartrefi rhag llifogydd
- Afan / Port Talbot – lleihau llifogydd yn y gaeaf a gweithio gyda Tata Steel ar lanhau elifiant i leihau echdyniadau.
- Afon Teifi – cael gwared ar ffosfforws, gan weithio gyda ffermwyr a hufenfa i sicrhau'r un budd amgylcheddol â gwaith carthffosiaeth costus.
- Afon Alyn – tynhau safon y gollyngiadu o waith carthffosiaeth yr Wyddgrug a gweithio mewn ffordd arloesol i gynnal lefelau'r afon.

3.7 Amlinellodd Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu y cefndir i'r argymhelliad yn y papur i sefydlu Fforwm Rheoli Dŵr (WMF) ar yr un fformat ag WLMF, ac eglurodd ble y byddai'n eistedd o fewn y strwythur cydweithredol ehangach.

3.8 Cymeradwyodd y Bwrdd y bwriad i sefydlu WMF gydag aelod arweiniol enwebedig o Fwrdd CNC.

***CAM GWEITHREDU:*** *Gofynnwyd am i aelod o'r Bwrdd gadeirio'r Fforwm Rheoli Dŵr. Y Cadeirydd i drafod y penodiad gydag aelodau'r Bwrdd a'i gadarnhau.*

## 4. Y Diweddaraf ar y Rhaglen Mwyngloddiau Metel

4.1 Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu drosolwg o'r sesiwn ac amlygodd yr agwedd arloesol ar rywfaint o'r gwaith sydd wedi'i gyflawni a sut y gallai hyn gael ei ailadrodd mewn rhannau eraill o'r sefydliad.

4.2 Cyfeiriodd yr Arbeniger Technegol, Dŵr a Thir Halogedig, at y 1,300 o fwyngloddiau metel sydd i'w cael ledled Cymru, gyda'r rhan fwyaf ohonynt wedi bod yn anweithredol ers dros 100 mlynedd. Mae pa mor agos yw'r safleoedd at gyrsiau dŵr yn broblem, ond gall eu heffaith ecolegol fod yn gadarnhaol a negyddol. Wrth ymdrin â'r safleoedd hyn, rhaid ystyried eu hanes cymdeithasol a diwylliannol pwysig. Mae rhoi triniaethau traddodiadol ar waith yn yr ardaloedd yn her oherwydd eu lleoliad, mynediad a'r cyfleustodau sydd ar gael.

Ysgrifennwyd y Strategaeth Mwyngloddiau Metel yn 2002, a chanolbwyntiwyd ar y 50 prif safle yng Nghymru.

4.3 Rhoddwyd manylion y gwaith a gyflawnwyd ar safle o bwys yn Abbey Console. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r safle gan ei fod yn llai cymhleth na rhai o'r lleill, ond mae'n safle pwysig iawn oherwydd presenoldeb cennau a mwsoglau a'i hanes canoloesol a diwydiannol.

4.4 Cyfeiriwyd at rai o'r treialon ymchwil a datblygu a gynhaliwyd gyda gwahanol sefydliadau ar drin dŵr; mae peth o'r gwaith yn arwain y byd o ran technoleg erbyn hyn. Tynnwyd sylw at lefel yr arloesedd ac mae angen i CNC dderbyn bod risg yn gysylltiedig â chyflawni gwaith fel hyn; mae angen i fethiant gael ei dderbyn ochr yn ochr â llwyddiant.

4.5 Mae staff CNC yn mynd i'r International Mine Waters Conference sy'n cael ei chynnal yn Rwsia yn 2019. Bydd staff yn ymweld â Sweden yn 2019 hefyd i arsylwi a dysgu.

4.6 Rhoddwyd manylion ar y Mine Exchange, sef cynhadledd ddeddydd y mae academyddion, ymgynghorwyr, Llywodraeth Cymru ac ati yn ei mynychu bob blwyddyn. Cyfeiriwyd at yr International Mine Waters Conference hefyd sy'n chwilio am leoliad i gynnal digwyddiad yn y dyfodol.

***CAM GWEITHREDU:*** *Aelodau'r Bwrdd i gael eu gwahodd i'r digwyddiad Mine Exchange yn Aberystwyth yn 2019 – Arbenigwr Technegol, Dŵr a Thir Halogedi, i anfon gwahoddiadau trwy'r Ysgrifenyddiaeth.*

4.7 Roedd gan y Bwrdd ddiddordeb mewn archwilio canlyniadau'r gwaith ac adfer ecoleg y safleoedd, ac a allai rhywfaint o'r deunydd a adferir gynhyrchu incwm. Rhoddodd yr Arbenigwr Technegol, Dŵr a Thir Halogedig fanylion peth o'r gwaith sy'n cael ei dreialu'n barod mewn perthynas â chynhyrchu incwm a sut y gallai hyn gael ei archwilio ymhellach gan y Cyfarwyddwr Masnachol ar ôl iddo gael ei benodi.

4.8 Amlygodd y Bwrdd yr angen i hyrwyddo'n helaeth y gwaith o bwysigrwydd byd-eang sy'n cael ei gyflawni yn y maes hwn. Cefnogodd y Bwrdd y cynnig i annog cynnal y gynhadledd International Mine Waters yng Nghymru.

## 5. Adroddiad Dangosfwrdd Corfforaethol a Rheoli Perfformiad (NRW 1903-B10)

5.1 Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at yr adroddiad a oedd yn cynnwys data hyd at fis Rhagfyr 2018 ac amlygodd dri dangosydd coch newydd:

- ymateb i ddigwyddiadau,
- adfer afonydd
- effaith safleoedd gwastraff a diwydiant

5.2 Nododd y Prif Weithredwr fod ymateb i ddigwyddiadau wedi'i drafod yn fanwl yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2019. Cafodd y methiant i gyflawni'r targedau a osodwyd mewn perthynas ag adfer afonydd ei briodoli i staff yn cael eu dargyfeirio i ymdrin

â’r ymchwiliad pysgota. Cynigir y bydd effaith safleoedd gwastraff a diwydiant yn cael ei chyflwyno i’w thrafod yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2019.

***CAM GWEITHREDU:*** *Effaith safleoedd gwastraff a diwydiant i gael ei harchwilio’n fanwl yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2019*

5.3 Cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod yn disgwyl rhywfaint o gynnydd ar fesurau eraill fel eu bod yn dod yn ambr/gwyrdd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Byddai hyn yn cynnwys Rhaglen Gyfalaf Perygl Llifogydd, Llwybr Arfordir Cymru a Hyrwyddo Hamdden Awyr Agored. Disgwylir i rai dangosyddion gael eu dwyn ymlaen i’r flwyddyn ariannol nesaf.

5.4 Nododd y Bwrdd bryderon ynghylch fformat yr adroddiad, a nodwyd bod angen gwneud ymdrech gyda’r geiriad a’r categoreiddio / dosbarthu er mwyn cyflawni gwelliant o ran pennu, cyflawni a chofnodi rheoli perfformiad yn y dyfodol. Pwysleisiodd y Bwrdd fod angen i’r busnes gyflawni canlyniadau ac na ddylai Cynllun y Sefydliad gael ei ddefnyddio fel esgus am fethu â chyflawni allbynnau/targedau cytunedig.

**CAM GWEITHREDU:** *Y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad i ystyried maint allbynnau a thargedau penodol ar gyfer 2020-21*.

---

## 6. Rhaglen Cwsmeriaid – Adolygiad 6 Mis (NRW 1903-B11)

6.1 Amlinellodd Rheolwr y Rhaglen Cwsmeriaid sut y cafodd y strategaeth, y rhaglen a’r 13 o brosiectau ynddi eu cyflwyno gan ddefnyddio adborth uniongyrchol gan gwsmeriaid mewnol (staff CNC) ac allanol. Un ystadegyn allweddol oedd mai dim ond 27% o’n cwsmeriaid sy’n credu ein bod ni’n ei wneud yn iawn y tro cyntaf. Mae gwelliannau’n cael eu gwneud, ond cydnabuwyd fod llawer mwy i’w wneud o hyd.

6.2 Rhaid i bob un o’r 13 o brosiectau, ac unrhyw rai newydd a gyflwynir i’w hystyried, ddangos sut mae cyfraniad go iawn gan gwsmeriaid wedi’i integreiddio yn y gwaith datblygu, darparu ac adolygu fel bod modd cyflawni gwelliannau gwirioneddol i gwsmeriaid. Rhaid i brosiectau ddangos y broses o bontio i fusnes fel arfer CNC i sicrhau integreiddio tymor hir cynaliadwy a chosteffeithiol gan mai dim ond hyd at fis Mawrth 2020 y bydd y rhaglen hon ar waith.

6.3 Amlygwyd gwaith gwella diweddar yn y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid, gan gynnwys mwy o gysylltedd o fewn CNC a gwelliannau i ddiwylliant a ffyrdd o weithio sydd eisoes wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd. Mae’r ganolfan yn newid i fod yn Hyb Cwsmeriaid; gan ddatblygu profiad tîm a chwsmeriaid trwy well cysylltiadau â’r busnes ac ymweld ag eraill yn allanol a dysgu ganddynt.

6.4 Mae gwelliannau ar y we yn amcan allweddol arall. Mae staff wedi datblygu canllaw ysgrifennu ar-lein sy’n rhoi sylw i safonau ar gyfer gohebiaeth ysgrifenedig. I gefnogi ei gyflwyno, bydd gweithdai hyfforddi’n cychwyn ym mis Mai 2019; mae’r pum sesiwn beilot gychwynnol wedi cynyddu i 11 oherwydd ceisiadau gan y busnes.

6.5 Gwaith y dyfodol i'w nodi:

- Dadansoddiadau lleferydd i'w cyflwyno i'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid.
- Gweithdy peilot datblygu a rhwydweithio ar 9 Mai 2019 yn Sain Ffagan ar gyfer staff ymgysylltu rheng flaen ledled y busnes.
- Gwelliannau i wasanaethau trafodion hunanwasanaeth ar-lein.

**Nodwyd:** Mae croeso i aelodau'r Bwrdd ddod i'r gweithdy ar 9 Mai 2019 yn Sain Ffagan, a gofynnir iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau/adborth perthnasol a dderbyniant gan gwsmeriaid hefyd.

6.6 Roedd y Bwrdd yn poeni am yr ystadegau ar foddhad cwsmeriaid, amserlen yr arolwg cwsmeriaid nesaf a thargedau ar gyfer gwella. Cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen Cwsmeriaid fod cynlluniau'n cael eu cwblhau gyda'r Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid (ICS) i ail-gynnal arolwg cwsmeriaid o fewn y flwyddyn ariannol hon. Pwysleisiwyd bod gan bob un o'r prosiectau a'r rhaglen fesurau a thargedau sy'n gymesur ac yn gwahaniaethu rhwng boddhad cwsmeriaid gyda'n gwasanaeth, yn hytrach na'u boddhad gyda chanlyniad ein penderfyniadau.

***CAM GWEITHREDU:*** *Manylion y mesurau a'r targedau parhaus i'w dosbarthu – y Rheolwr Rhaglen Cwsmeriaid i'w dosbarthu cyn 30 Ebrill 2019*

6.7 Cymeradwyodd y Bwrdd gynnwys y ddogfen a'r rhaglen Strategaeth Cwsmeriaid, ond pwysleisiodd fod angen cadw cynnwys y ddogfen yn fyw i staff trwy bwysleisio'r manteision. Gofynnwyd i'r Bwrdd gyflwyno unrhyw sylwadau a syniadau ar sut i gyflawni a chynnal cyfraniad staff i'r Rheolwr Rhaglen Cwsmeriaid.

6.8 Nododd y Bwrdd fod angen ystyried rhyw ffordd o roi cydnabyddiaeth yn y dyfodol i ganlyniadau da, ffyrdd o weithio a chyflawniad gan staff, a gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried natur y gydnabyddiaeth hon.

6.9 Nododd a chymeradwyodd y Bwrdd y cyfeiriad at y dyfodol.

***CAM GWEITHREDU:*** *Rhaglen Cwsmeriaid i gael ei hadolygu'n llawn gan y Bwrdd bob chwe mis, a'i hadolygu'n gyfnodol gan PaRC*.

## 7. Cau'r cyfarfod

Caeodd y Cadeirydd y cyfarfod

## Croesawodd y Cadeirydd gwestiynau ac arsylwadau gan y Cyhoedd:

Dyma'r pynciau a godwyd:

- Cafodd argymhellion adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig ar ynni adnewyddadwy eu cwestiynu a'u trafod. Rhoddwyd sicrwydd bod CNC wedi ymrwymo i ynni adnewyddadwy ac â diddordeb mewn perchnogaeth gymunedol. Byddai trafodaethau ar unrhyw syniadau neu fentrau adnewyddadwy cymunedol i'w croesawu. Nodwyd bod Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth yn gyswllt allweddol ar gyfer hyn.

- Digwyddiad rhanddeiliaid, dydd Mercher 20 Mawrth 2019 – cafwyd adborth cadarnhaol ar gyfer y digwyddiad.
- Nodwyd bod angen i wybodaeth am gyfarfodydd y Bwrdd ar y rhyngrwyd gael ei rheoli'n well, gyda'r dyddiadau a'r lleoliadau cywir yn cael eu cynnwys a bod papurau ar gael o fewn yr amserlen a nodir.
- Roedd e-bost wedi'i dderbyn ynghylch y rheoliad presennol yn ymwneud â thynnu dŵr, gollyngiadau dŵr budr a diogelu rhag llygredd. Gofynnwyd a yw CNC o'r farn bod y rheoliad presennol yn ddigonol yng ngoleuni'r ffaith bod y diwydiant da byw dwys yn ehangu ledled Cymru a'r rhybudd am brinder dŵr yn y dyfodol agos.

**CAM GWEITHREDU:** *Cyfarwyddwr Gweithredol, Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, i ymateb yn llawn ac yn fanwl i'r cwestiwn a ofynnwyd yn yr e-bost ar dynnu dŵr, dŵr budr ac ati, fel yr amlinellir yn y pwynt olaf*